CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 02 Chwefror Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 11 0 Chwefror 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Annette Price (Cadeiryddes), Y Cynghorwyr Betsan Jones, Loreen Lewis, June Gunter, 0 Arnallt James, Anthony Richards, Carwyn James, Anne Sizmur a'r Cynghorwr Sir Audrey Jones.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Catherine Smith, Menna Roberts, Richard Howell ac Maldwyn John.

Rhoddodd y Cadeiryddes ddiolch i Cynghorwr Betsan Jones am fod yn Cadeiryddes yn cyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned. Hefyd rhoddodd y Cadiryddes croes cynnes yn not i Cynghorwr Anne Sizmur i'r Cyngor Cymuned.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
NODWYD ni wneuthur datganiad gan aelodau am Fuddiannau Ariannol a rhai heb fod yn Ariannol.

1. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALlWYD AR YR 21ain o IONAWR 2009.
Gofynnodd y Cynghorwr Loreen Lewis pam nid oedd y Cynghorwyr Cymuned wedi derbyn cofnodion Cymraeg cyn y Cyfarfod miso!. Roedd y Clerc wedi ymddiheuro a dywedwyd fydd hi'n danfon y Cofnodion i'r Cynghorwyr.
Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards bod ef wedi codi materion yn y cyfarfod diwethaf ynglin a IIwybrau troed ond nid yw nhw yn y cofnodion.
Newidiad- Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards nid oedd ef yn gallu cerdded ar y IIwybr troed sy'n arwain 0 Maesllech ac sy'n dod allan ger y Scotch Pine oherwydd fod coeden dros y IIwybr, ac hefyd roedd y meiri wedi gordyfu. Roedd y Cynghorwr Anthony Richards yn teimlo bod hyn yn annerbynniol i dalu person i cynnal a chadw'r IIwybrau pan mae'n amlwg nid yw'n cael ei gwneud.
Newidiad- Y Cynghorwr Anthony Richards oedd wedi gofyn i'r Cynghorwr Sir am gopi o'r polisi ailgylchu ac nid y Cynghorwr Richard Howell.

Cadarnhaodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter fod cofnodion cyfarfod yr 21ain 0 mis lonawr 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeiryddes.

2. MATERION YN COOl.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Fe ddarllennod y Clerc llythyr dderbyniwyd wrth Cyfreithiwr Llys Cennen i'r Cynghorwyr. Mae'r Cyfreithiwr am gael cyfarfod gyda'r Cynghorwyr fel y gallynt drafod y mater hwn ym mhellach. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc, Y Cynghorwyr Annette Price, Richard Howell ac Loreen Lewis yn trefnu cyfarfod gyda'r Cyfreithiwr.

2.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc ei bod hi heddiw wedi derbyn ffurflen trwyddedu wrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynglin a rhoi'r bwrdd hysbysu'r Cyngor Cymuned tu allan i Ysgol Gynradd y Betws. PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr fod y Clerc yn cwblhau'r ffurflen ac yn eu ddychwelyd ef at Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.3 Bwrdd Picnic - Ysgol Gynradd y Betws.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei bod hi wedi gosod archeb am y bwrdd picnic i Ysgol Gynradd y Betws. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.4 Bin a meinciau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc ei bad hi wedi derbyn cadarnhad wrth Mr Gerwyn Thomas bod y bin a'r meinciau wedi cael eu ddanfon i Depo Glanamman. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y meinciau yn cael eu osod ar Heol Pentwyn, Heol Waungron, Treforis ac hefyd ym Mharc y Betws. Mae'r bin hefyn yn mynd i gael ei osod ym Mharc y Betws. Y Clerc i ofyn i Mr Gareth Howells 0 Cyngor Sir Caerfyrddin i cysylltu a'r Cadeiryddes ynglin a'r lleoliad manwl 0 rhai'r meinciau a'r bin.

2.5 Golau Solar am Parc y Betws - Gardd Synhwvro a Choffa.
Dywedodd y Clerc ei bad hi wedi danfan ebost at 'Sunset Solar' ynglin a'r gost 0 rhoi golau solar ym Mharc y Betws, ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr ei bod hi'n erlid y mater hwn.

2.6 Goleuadau TymherollCroeso am Cymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi danfon ebast at 'Derwen Lighing' ynglin a'r gost 0 prynnu goleuadau tymherol/croeso i Gymuned y Betws ond nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Fe cadarnhaadd y Clerc fydd hi'n cysylltu a Clerc Cwmamman i weld ble prynnon nhw eu golau croeso. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.7 Gorchymyn Cadwraeth at Coeden Dderw ar Safle Hen Gwaith Glo'r Betws.
Dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynglin a gorchymyn cadwraeth ar coeden dderw Americanaidd ac hefyd ar y coeden dderw mawr sydd ar llwybr Maesybetws. Roedd y Cynghorwr Loreen Lewis wedi cadarnhau bod hi wedi bod i ymweld a Swyddfa'r Cyngor yn L1andeilo peth amser yn nol, ac raedd y coeden dderw Americanaid a'r coeden dderw mawr gyda gorchymyn cadwraeth arnynt. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn cysylltu gyda Cyngor Sir Caerfyrddin i weld os gallant gwneud arolwg o'r coedwig 0 fewn Betws. Cytunwyd y Cynghorwyr.

2.8 Cyflwyniad Shelter Cymru.
Dywedodd y Clerc ei bod hi'n aros am Swyddag 0 Shelter Cymru i cadarnhau ei bad nhw ar gael i rhoi cyflwyniad fer i'r Cynghorwyr cyn cyfarfad misol y Cyngor Cymuned mis nesaf. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.9 Cwrs Hvtforddiant Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.
Cadarnhaodd y Clerc ei bod hi wedi danfan ebost i Clerc Cyngor Dref Rhydaman ynglin a cwrs hyfforddiant cod ymddygiad i Gynghorwyr. Nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.10 Llofnodion Awdurdodedig.
Roedd y Cynghorwr Betsan Jones wedi cadarnhau bod y Cynghorwr Richard Howell a hi wedi rhoi ei llafnod eta i Lloyds TSB ac fe dele nhw nawr fod yn llofnodion awdurdodedig. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.11 Gliniadur i'r Clerc.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn dau pris am gliniadur, ac Morgan & Morgan roedd gyda'r pris rhad. Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter ac fe BENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn prynu gliniadur wrth Morgan & Morgan.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cydnaduwyd a nodwyd y canlynol.

•Un L1ais i Gymru - Garddwest Pala Buckingham.
•L1ywodraeth Cynulliad Cymru - Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partlneriaeth Uywodraeth LeoI2007/08.
•L1ywodraeth Cynulliad Cymru - Swm priodol 0 dan adran 137 (3) 0 Ddeddf Uywodraeth Leo11972.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatad i'r ca is cynllunio isod:-
E/20422 - Dymchwel cegin gwreiddiol, ystafell amlbwrpas, neuadd a wc ac ailadeiladu cegin, ystafell amlbwrpas ac estyniad ystafell wely ger 94 Heol y Cyrnol, Betws (18-2008/09).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
1. Linpac Environmental Lld (mainc i Ysgol y Betws) £597.71
Cyfanswm £597.71

5.2Incwm.
Cyngor Sir Caerfyrddin (Cynnal a chadw'r IIwybrau troed 2007/08 £741.60 ac 2008/09 £1,483.20) £2,224.80

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 3 trosedd j'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis lonawr, sy'n cynnwys 2 niwed troseddol i cerbydau ac 1 eiddo cannabis. 100% datgeliad cyfradd.
Roedd PC Kevin Jones wedi cadarnhau ei fod ef wedi danfon ebost i Bartneriaeth y Camera Cyflymder ynglin a'r fan camera ym Mhetws, ond nid yw ef wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.
Roedd PC Kevin Jones hefyd wedi cadarnhau fod yr Heddlu yn gwneud ymweliadau cyfredol i'r ty yn Treforis.
Fe ofynnodd y Cynghorwyr i PC Kevin Jones beth sydd yn digwydd ynglin ar Disgos Golau Glas? Dywedodd PC Kevin Jones fod yr Heddlu yn edrych mewn i'r mater hyn.
NODWYD Y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gade.iryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones ar y materion canlynol:-
Fowlio Cwn - Adroddodd ei bod hi'n aros ar hyn 0 bryd i gael cyfarfod or safle gyda Swyddog o Gyngor Sir Caerfyrddin. Fydd hi'n cynghori'r Clerc gyda'r dyddiad ac amser y cyfarfod yn ei bryd.
Banciau Boteli - Mae hi wedi siarad gyda Adran Ailgylchu 0 Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae'r Cyngor Sir wedi cadarnhau ei'n bod nhw'n mynd i ysgrifennu at y Coopers Arms i weld os gall banc boteli arall cael ei lleoli yna, mae nhw'n hefyn yn mynd i ysgrifennu at Clwb Rygbi'r Betws i weld os gall banciau ailgylch cael eu lleoli yn y maes parcio. Awgrymodd y Cynghorwr Betsan Jones fod y Clerc yn ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin i weld os fu nhw'n fodlon ystyried ailddechrau gasglu gwydr i ailgylchu. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Ailgylchu 0 Cyngor Sir Caerfyrddin.
Glyncywarch - Mae hi'n aros i dderbyn ymateb wrth Mr Towns ynglin a cael cyfarfod or safle.

Roedd y Cynghorwr Arnallt James yn pryderu oherwydd nid yw'r man chwarae ar Heol Maescware wedi cael ei cwblhau. Adroddodd y Cynghorwr Annette Price fod Mr Gerwyn Thomas 0 Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn erlid y mater hwn, ac mae ef nawr wedi cael ei cyfeirio ar Cyfreithi Cyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Cynghorwr Sir Audrey Jones yn erlid y mater hwn, fe cytunwyd y Cynghorwyr.

Adroddodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fod y set ger gardd synhwyro ym Mharc y Betws wedi cael ei symud. Mae'r Cynghorwr Annette Price yn mynd i ymweld a'r pare.

Gofynnodd y Cynghorwr Anthony Richards i'r Cynghorwr Sir os yw hi wedi gwneud ymholiadau gyda Cyngor Sir Caerfyrddin ynglin eu polisi ailgylchu. Cadarnhaodd hi fydd hi'n edrych i mewn i'r mater hyn, ac yn ymateb yn syth i Cynghorwr Anthony Richards.

Roedd y Cynghorwr Annette Price yn pryderu ynglin a'r eira yn ddiweddar a'r prinder 0 halen grut. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin in ofyn am copi o'u polisi grut. Cytunwyd y Cynghorwyr.

NODWYD Y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i Cynghorwr Sir Audrey Jones am ei adroddiad.

8. ADRODDIADAU.
Adroddodd y Cynghorwr Annette Price ar y Cyfarfod Cyswllt yr Heddlu a fu hi'n bresennol yn diweddar. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Gwefan y Cymuned.
Nodwyd y Cynghorwr Loreen Lewis nid yw cofnodion y Cyngor Cymuned yn cyfoes ar gwefan y Cymuned. Cadarnhaodd y Clerc fydd hi'n edrych mewn i'r mater hyn. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr

9.2 Cyngor Cymuned y Betws - Dogfennau.
Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr am caniatad i archifo cofnodion y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y Cynghorwyr. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.3 Pwyllgor Safonol.
Fe esboniodd y Cynghorwr Annette Price i'r Cynghorwyr roedd rhaid gohirio'r Cyfarfod gyda'r Swyddog y Priffordd 0 Cyngor Sir Caerfyrddin oherwydd roedd rhaid i rhai o'r Cynghorwyr cwblhau'r ffurflen Pwyllgor Safonol. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.
9.4 Cronfa Adferiad Paul Pugh.
Roedd y Clerc wedi atgoffa'r Cynghorwyr nid yw'r Cyngor Cymuned wedi rhoi'r siec rhodd i'r cronfa uchod. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cadeiryddes yn ddychwedyd y siec i'r Clerc fel y gall hi newid y dyddiad.

9.5 Cofrestr Diddordebau'r Aelodau.
Nodwyd y Clerc nid yw hi dal wedi derbyn ffurflenni cofrestr diddordebau wrth y Cynghorwyr Annette Price ac Anthony Richards. Roedd y Cynghorwyr Annette Price ac Anthony Richards wedi cwblhau ei ffurflenni yn ystod y Cyfarfod ac fe ddychwelyd at y Clerc. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.6 Annwyl Fan. Betws.
Adroddodd y Cynghorwr June Gunter ei bod hi'n pryderu oherwydd fod dwr yn casglu yn y ceudwll ar yr hewl tu allan i Annwyl Fan. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter fod y Clerc yn ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin i weld pwy sy'n gyfrifol am yr hewl. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin.

9.7 Llwybrau.
Adroddodd y Cynghorwr Anthony Richards fod y steil wedi yn bwdr ar y Ilwybr troed sy'n arweinio 0 Cwmfelin i Maesllech. Awgrymodd y Cynghorwr Loreen Lewis ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Burridge i ofyn iddo atgyweirio'r gat. Hefyd PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Burridge i ddweud wrtho fod y Cynghorwyr wedi derbyn cwynion cryf wrth preswylwyr ynglin a cyflwr y Ilwybrau.

9.8 Banc y Wern. Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod yna preswylydd 0 Banc Y Wern, Betws sydd yn

pryderu oherwydd fod y gwter wedi cael ei golchi i ffwrdd sy'n arwain i'r uchod.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin i weld os gall y gwter/ffos cael ei llenwi.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9.00 yr hwyr.